# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Y Cynghorydd John C. Spanswick** **Ward: Bracla**

**Plaid: Llafur**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2020. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Bracla ar 4 Mai 2017 fel Cynghorydd Llafur. Rwyf wedi parhau i ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys gweithio ar rai fel y rhestrir isod: -

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol
Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 3 (Cadeirydd)
Rheoli Datblygu (Cynllunio)
Cyngor (Prif gyfarfod a gynhelir bob mis)
Panel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb (BREP)
Pwyllgor Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi (**) o ymholiadau gan etholwyr yn ffurfiol (a elwir yn atgyfeiriadau) gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyfiawnhau fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu sawl Gweithgaredd Datblygu Aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth o faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a fy ward. Yn ogystal, rwyf wedi ceisio cael yr wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch grwpiau a sefydliadau lleol sy'n helpu i wneud Bracla yn lle gwych i fyw.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **(rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau)** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth** (dim mwy na 200 o eiriau)

Rwyf wedi bod ar gael i drafod pryderon a godwyd gan breswylwyr ac rwy'n parhau i weithredu ar eu rhan ar ystod eang o bynciau fel pryderon amgylcheddol, diogelwch ar y ffyrdd a materion yn ymwneud â'r heddlu, gorfodaeth sbwriel a baw cŵn, cynnal a chadw mannau agored, materion priffyrdd, gorfodaeth cynllunio, gwasanaethau plant a gwasanaethau cymdeithasol. Yn wir, byddaf yn ceisio helpu gydag unrhyw beth y mae gan aelod o'r cyhoedd broblem gydag ef neu ymholiad yn ei gylch bob amser. Efallai nad wyf wedi gallu datrys pob ymholiad yn unol â dymuniadau'r etholwr, ond rwyf wedi gwneud fy ngorau

Ym mis Mai 2019, cefais fy mhenodi yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Bracla am y 3ydd tro ers cael fy ethol am y tro cyntaf ym 1992. Mae llawer o weithgareddau'n cael eu cynnal gan y Cyngor Cymuned fel yr arddangosfeydd blodau, torri gwair, biniau sbwriel, goleuadau Nadolig, digwyddiadau cymunedol a gwelliannau amgylcheddol cyffredinol a gobeithio y gall trigolion weld y gwahaniaeth y mae'n ei wneud yn y gymuned leol.

Rwyf hefyd yn Llywodraethwr Awdurdod Addysg Lleol yn Ysgol Gynradd Bracla ac Ysgol Gynradd Tremains, ac yn flaenorol wedi gwasanaethu ar Fwrdd Llywodraethwyr Brynteg a chyfnod byr yn Ysgol Archesgob McGrath.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig** (dim mwy na 200 o eiriau)

Ym mis Hydref 2019, helpais breswylydd lleol i sefydlu grŵp cymorth newydd ar gyfer dynion a dynion ifanc gyda'u hiechyd meddwl a'u llesiant. Enw'r grŵp yw Lads & Dads a threfnais i'r ychydig gyfarfodydd cyntaf gael eu cynnal yng Nghanolfan Gymunedol Bracla ar gyfer sesiynau cyfarfod a sgwrsio anffurfiol.

Rydym yn ffodus ym Mracla i gael gwarchodfa natur leol yng Nghoed Tremains a lle bynnag y bo modd rwyf wedi cefnogi Ceidwaid Coetir Tremains sy'n gwneud gwaith gwych yn diogelu a gwella'r coetir hynafol hwn yng nghanol Bracla.

Ymunodd Cyngor Cymuned Bracla â chystadleuaeth Cymru yn ei Blodau ac ennill yng nghategori'r Gymuned Drefol ar ôl cystadlu yn y categori dros y 3 blynedd diwethaf. Cefais y fraint o fynychu'r seremoni wobrwyo fel Cadeirydd y Cyngor i dderbyn y wobr ar ran Cymuned Bracla.

Rwyf wedi cefnogi a helpu i drefnu Diwrnod Hwyl Bracla yn rheolaidd ers ei sefydlu ym 1998 ac mae hyn yn parhau i fod yn llwyddiant mawr bob blwyddyn ac mae'n cael ei ariannu'n llawn gan Gyngor Cymuned Bracla i'r gymuned gyfan ei fwynhau.

**Gweithgareddau/Materion Eraill** (dim mwy na 100 o eiriau)

Lle bynnag y bo modd, rwy'n ceisio cyfathrebu drwy e-bost a / neu dros y ffôn ond rwyf hefyd wedi ymweld â'r cartref i drafod pryderon gyda phreswylwyr y mae'n well ganddynt siarad â mi yn bersonol ac yn gyfrinachol.

Gellir cysylltu â mi bob amser ar fy ffôn symudol (07977 520080), ond os wyf yn brysur neu oddi cartref byddaf yn ceisio ymateb cyn gynted â phosibl. E-bost yw'r ffordd fwyaf effeithiol o hyd i mi gadw mewn cysylltiad â phreswylwyr. (cllr.john.spanswick@bridgend.gov.uk)

Nid wyf wedi trefnu cymorthfeydd penodol gan fy mod wedi canfod yn y gorffennol nad yw'r rhain wedi cael eu mynychu'n dda a byddai'n well gennyf fod ar gael yn ôl / pan fydd pobl fy angen yn hytrach nag yn ystod sesiwn cymhorthfa gyfyngedig, ond rwy'n hapus i ystyried unrhyw awgrymiadau ar gyfer ffyrdd o wella cyfathrebu â phreswylwyr.

**Cynghorydd : J. C. Spanswick** **Dyddiad: 5 Ionawr 2021**